Cenn@d

CHWEFROR 28 2024 YN CYNNWYS *Y GOLEUAD* A *SEREN CYMRU* RHIF 157

Cenhadaeth yn parhau ym mro Dewi Sant

Yn ei gyfrol, “Saints, Seaways and Settlements” cyfeirio wna’r diweddar athro E.G. Bowen at ddewrder y seintiau Celtaidd cynnar yn sefydlu eglwysi yn Llydaw, Cernyw a Chymru. Roedd ganddynt argyhoeddiad clir ac ymdeimlad o alwad i ledaenu efengyl Iesu Grist. Er mwyn gwneud hyn, roedd angen ffydd, hyder a menter. Nid peth bach oedd mentro mewn cwch a hwylio o benrhyn i benrhyn i ledaenu’r efengyl. Yna wedi cyrraedd y penrhyn, symud mewn mwy i ganol y wlad i sefydlu eglwysi. Nid eglwysi fel y byddwn ni’n meddwl amdanynt oedd y rhain, ond celloedd syml yn ffocysu ar bregethu, gweddïo a gwasanaethu yn enw Iesu. Cofir am y seintiau hyn yn yr eglwysi a sefydlwyd ganddynt, Brychan, Pedrog, Tudno, Illtyd, Teilo, Tudwal, Padarn ac eraill. Ond, y mwyaf enwog ohonynt i gyd, wrth gwrs yw Dewi, ein nawdd sant.

Tŷ Ddewi gyda’r hwyr

Ond, ble mae’r mentro mewn cenhadaeth heddiw ym mro Dewi Sant? Yn draddodiadol mae Sir Benfro wedi cael ei rhannu’n ddwy gan linell ieithyddol, y Landsker, llinell sy’n ymestyn o Niwgwl i Amroth. Ond, yn y degawdau diwethaf, mae’r llinell wedi gwanhau gyda mwy o Saesneg yn y gogledd a mwy o Gymraeg yn y De. Bellach mae Ysgol Caer Elen wedi agor yn Hwlffordd ar gyfer plant 3 i 16, ysgol gyda dalgylch eang iawn yn cynnwys rhan helaeth o waelod y Sir. Credaf fod o leiaf tri pheth yn hanfodol wrth feddwl am ddechrau gwaith newydd.

1. Gweledigaeth glir yn codi o argyhoeddiad mewnol. Dros y misoedd diwethaf dwi wedi cael argyhoeddiad bod angen sefydlu gwaith newydd yn Hwlffordd er mwyn gwasanaethu dalgylch Ysgol Caer Elen. Er bod oedfaon Cymraeg wedi cael eu cynnal yn Hwlffordd yn achlysurol, does dim oedfaon cyson, wythnosol, wedi cael eu cynnal yno yn y Gymraeg ers blynyddoedd lawer. Gyda chymorth eraill, dwi’n bwriadu dechrau oedfa Gymraeg yn wythnosol yn Hwlffordd ar brynhawn dydd Sul, gan dechrau rywbryd rhwng y Pasg a’r Sulgwyn, D.V. Yn ein dosbarth Beiblaidd rai misoedd yn ôl, cawsom ein herio i ymateb i orchymyn Iesu i daflu’r rhwyd i’r ochr arall: ‘Meddai yntau wrthynt, “Bwriwch y rhwyd i’r ochr dde i’r cwch, ac fe gewch helfa.”’ (Ioan 21:6) Ein gweledigaeth felly yw taflu’r rhwyd i ochr arall y cwch, i ochr arall llinell y Landsker, yn Hwlffordd. Nid peth newydd yw hyn mewn un ystyr, oherwydd roedd dwy eglwys gyda’r Bedyddwyr un adeg yn Hwlffordd, sef ‘Bethesda – The English Cause’ a ‘Hill Park – The Welsh Cause’.

2. Ymrwymiad i weddi. Os nad ydym o ddifrif ynglŷn â gweddi dros unrhyw fenter newydd, does dim pwynt gwastraffu amser nac egni. Mewn un ystyr, gweddi yw’r gwaith, ‘Os nad yw’r ARGLWYDD yn adeiladu’r tŷ, y mae ei adeiladwyr yn gweithio’n ofer. Os nad yw’r ARGLWYDD yn gwylio’r ddinas, y mae’r gwylwyr yn effro’n ofer’ (Salm 127:1). Rhaid gofyn i Dduw symud yn nerth yr Ysbryd Glân i adeiladu ei eglwys yn ein plith. Cawsom ein herio hefyd yn ein dosbarth Beiblaidd yn Llyfr Sechareia gyda’r geiriau, ‘Nid trwy lu, ac nid trwy nerth ond trwy fy Ysbryd, medd Arglwydd y Lluoedd’ (Sechareia 4:6). Rhaid felly geisio gofyn am faich i weddïo dros y dystiolaeth Gristnogol yn ein sir. Dydy trafod yn unig ddim yn ddigon; rhaid mynd ati o ddifrif a gofyn i’r Arglwydd symud yn nerth yr Ysbryd Glân, i adeiladu ei eglwys yn ein plith.

3. Mentro ar sail y Gair. Mae’n naturiol dechrau unrhyw drafodaeth ar y sefyllfa yn sir Benfro gyda’r capeli sydd ar ôl, prinder gweinidogion i wasanaethu, yr angen am leygwyr i bregethu’n gynorthwyol, methiant i gyrraedd y bobl

(parhad ar y dudalen nesaf)

Cymorth Cristnogol – Taclo Tlodi – Grawys 3 Hael (Detholiad) Tudalen 5

Un funud fach ... Tudalen 7

Oedfa Cenn@d – Gŵyl Dewi Tudalen 8

Sefydlu gwaith newydd yn sir Benfro
(parhad o dudalen 1)

ifanc ayb. Ond tybed a ydym, wrth wneud hyn, yn dechrau yn y man anghywir? Gwell dechrau mewn man arall, dechrau gyda mawredd tosturi Duw, buddugoliaeth yr Arglwydd Iesu, grym yr Ysbryd Glân, gogoniant yr efengyl, cariad Iesu tuag at ei ddyweddi, yr Eglwys, y gobaith i'r colledig yn yr efengyl. Felly, rhaid i unrhyw waith newydd fod yn 'efengyl-ganolog', yn unol â gorchymyn Iesu i'w ddisgyblion. "Rhoddwyd i mi," meddai,

Dewi Sant mewn ffenestr liw gerllaw Tŷ Ddewi

"bob awdurdod yn y nef ac ar y ddaear. Ewch, gan hynny, a gwnewch ddisgyblion o'r holl genhedloedd, gan eu bedyddio hwy yn enw'r Tad a'r Mab a'r Ysbryd Glân, a dysgu iddynt gadw'r holl orchmynion a roddais i chwi. Ac yn awr, yr wyf fi gyda chwi yn wastad hyd ddiwedd amser." (Mathew 28:19–20)

Ymgais i ymateb yn gadarnhaol i orchymyn Iesu, felly, yw'r ymdrech i ddechrau gwaith newydd a chroesi ffin y Landsker er mwyn gwneud hyn yn yr iaith Gymraeg. Bydd cynnal dosbarthiadau Beiblaidd a chyfarfodydd gweddi wythnosol yn bwysig er mwyn rhoi sail i'r gwaith a chael cyfle i ddarllen y Beibl, i weddïo, i gymdeithasu ac i weld sut y gallwn wasanaethu eraill yn enw Iesu. Dwi ddim yn gweld hyn fel dechrau eglwys newydd, ond rhoi'r cyfle i gyfarfod mewn oedfaon ar y Sul yn y Gymraeg yn Hwlffordd. Efallai y bydd eglwys yn cael ei phlannu o hyn, maes o law. Cawn weld beth yw cynlluniau'r Arglwydd ar ein cyfer.

Boed i ni dderbyn arweiniad yr Ysbryd a bod yn barod i fentro mewn ffydd. Efallai y bydd dechrau rhywbeth yn Hwlffordd yn sbarduno eraill i fentro dechrau rhywbeth tebyg mewn ardal arall uwchben y Landsker. Rhaid, yng ngeiriau William Carey, 'Disgwyl pethau

Geraint a Tina Morse

mawr gan Dduw, a mentro pethau mawr dros Dduw.'

Plis gweddiwch dros y rhai sydd heb glywed efengyl yr Arglwydd Iesu, siaradwyr Cymraeg yr ardal, rhai sy'n dysgu Cymraeg, rhieni, plant a phobl ifanc sy'n byw o fewn i ddalgylch yr ysgol yn Hwlffordd! Mae angen mentro y ein dydd fel y gwnaeth y seintiau Celtaidd cynnar gan adael i'r Arglwydd lwyddo ymdrechion ein dwylo, mewn gwaith, gwasanaeth a gweddi.

Geraint Morse

Aduniad Souled Out – penwythnos i ieuenctid hŷn yng Ngholeg y Bala

Hwn oedd fy nhro cyntaf i fynd i aduniad Souled Out, ac fe wnes i fwynhau'n fawr! Thema'r penwythnos oedd 'Traed Gwlyb' ac roedd y sgyrsiau yn sôn am gamu allan yn ein ffydd. Yna, yn y grwpiau bach roedd o'n ddiddorol trafod beth wnaeth sefyll allan i ni o'r sesiwn, a hefyd roedd cyfle inni weddïo efo'n gilydd.

Rhai o uchafbwyntiau'r cwrs i fi oedd 'Dyfnach' – cyfle gwerthfawr iawn i fynd yn ddyfnach, addoli a gweddïo efo'n gilydd. Roedd o'n gyfle i gamu allan yn ein ffydd a chael 'traed gwlyb' go iawn. Uchafbwynt arall oedd y *fire pit* o flaen y Coleg efo'r *marshmallows* a'r *s'mores*!

Roedd o'n deimlad mor arbennig i dreulio penwythnos gyda'r holl bobl oedd yno, a dwi wir yn edrych ymlaen i gael dod eto yn yr haf!

Angharad Rhys
Llandderfel

Am fwy o wybodaeth am y gwaith yma, cysylltwch â Meryl Walters yng Ngholeg y Bala am sgwrs ar 01678 520565 neu e-bostiwch info@souledoutcymru.net

John Rhys (27 Gorffennaf 1928–18 Rhagfyr 2023)

Ganwyd John Rhys yn Nhrehopcyn, ger Pontypridd, a bu ei rieni – Trefor a Blodwen Rhys – yn ffyddlon i Gapel Rhondda (Bedyddwyr Cymraeg) ar hyd eu hoes. Bu Trefor yn ysgrifennydd y capel am flynyddoedd maith. Ond wedi i Trefor gael swydd yn dysgu yn yr ysgol gynradd yn Ystum Taf, Caerdydd, fe symudodd y teulu yno, a chafodd John ei fagu hefyd yn ysgol Sul eglwys gynulleidfaol Saesneg Christ Church, Ystum Taf.

Yn ei arddegau, fe ymdeimlodd â galwad i bregethu, ac am 60 mlynedd fe fu'n bregethwr cynorthwyol yn eglwysi Caerdydd a'r cymoedd yn y Gymraeg a'r Saesneg. Roedd yn awyddus i gyflwyno dysgeidiaeth Feiblaidd mewn ffordd ddealladwy, a bu'n ysgrifennydd am flynyddoedd ar Ganolfan Addysg Gristnogol Oedolion Caerdydd (CACEC) ac elusen Cyfeillion Cymreig yr Anghenus, yn helpu ffoaduriaid wedi'r Ail Ryfel Byd ac yna blant yng ngwledydd Affrica.

Wedi graddio gyda BA ac MA mewn Cymraeg ym Mhrifysgol Caerdydd, fe fu'n gweithio i'r Cynilion Cenedlaethol fel swyddog ysgolion. Bu raid iddo symud i Sir Gaerhirfryn gyda'i waith, ond roedd wastad yn awyddus i ddychwelyd i Gymru, ac ym 1957 ymsefydlodd yn Rhiwbeina gyda'i wraig gyntaf, Sylvia, lle bu fyw weddill ei oes. Yno y ganed eu mab, Gethin. Ymgartrefodd yng Nghapel Beulah (Cynulleidfaolwyr Saesneg). Roedd John yn gefnogwr brwd dros sefydlu'r Eglwys Ddiwygiedig Unedig ym 1972, gan ddod yn glerc ar Synod Cymru am dymor yn y 1990au. Bu'n ddiacon ac yn flaenor lleol, ac yn gyd-arweinydd ar y dosbarthiadau Beiblaidd a oedd yn aml yn cwrdd yn ei gartref, yn enwedig wedi iddo briodi ei ail wraig Barbara, hithau yn flaenor yn Beulah, ym 1989.

Ym 1967 daeth yn was sifil gyda Bwrdd Iechyd Cymru ac yna yn adran gyffredinol y Swyddfa Gymreig. Fel rhan o'i waith, ym 1971–2 ef oedd ysgrifennydd Pwyllgor Bowen, a argymhellodd gyflwyno arwyddion ffyrdd dwyieithog i Gymru. Rhoddodd hyn gyfle i John deithio gyda'r Pwyllgor i Wlad Belg, y Ffindir ac Iwerddon, oedd eisoes ag arwyddion o'r fath. Fe brynodd esgidiau newydd i fynd i Wlad Belg, ond roedd yr esgidiau yn llythrennol yn gwasgu a gwnaed difrod parhaol i fawd ei droed dde. Gellir dweud iddo aberthu'r bawd hwnnw dros yr iaith Gymraeg, gan i'r Llywodraeth dderbyn argymhelliad yr adroddiad, a ddrafftiwyd gan John, y dylai pob arwydd ffordd a osodwyd o'r newydd fod yn ddwyieithog, gan felly roi amlygrwydd newydd i'r Gymraeg ar bob heol yng Nghymru.

Ym 1973 sefydlodd y llywodraeth Gyngor yr Iaith Gymraeg, gyda John eto'n ysgrifennydd. Argymhellodd hwnnw i Lywodraeth y Deyrnas Unedig wneud cyfraniadau ariannol i fudiadau gwirfoddol megis Mudiad Ysgolion Meithrin, a chynyddu'r arian cyhoeddus i waith Cymraeg a gefnogwyd gan Gyngor Celfyddydau Cymru, Cyngor Llyfrau Cymru ac ati. Pennawd yr adroddiad terfynol ym 1977 oedd rhoi £1 miliwn y flwyddyn o arian cyhoeddus er hybu'r iaith Gymraeg – cam bychan ond pwysig tuag at Gymru ddwyieithog.

Erbyn i'r adroddiad hwnnw gael ei gyhoeddi, roedd John wedi cael ei benodi ym 1976 yn Gyfarwyddwr ar Wasg Prifysgol Cymru, a bu yno nes iddo ymddeol ym 1990. Er ei fod yn caru llyfrau, nid oedd wedi gweithio cyn hyn yn y byd cyhoeddi, a bu'n ffodus i etifeddu tîm bychan ond brwd a oedd eisoes yn hyddysg yn y maes. Roedd rhychwant y llyfrau yn eang – roedd wrth ei fodd yn cyhoeddi cyfrolau diwinyddol gan yr Athro Aubrey Johnson; Geiriadur Lladin–Cymraeg Huw Thomas (a oedd, yn digwydd bod, yn athro Lladin ar Gethin); a chyhoeddwyd yn eu tro rannau o Eiriadur Prifysgol Cymru. Araf oedd hwnnw i ddod i fwcwl (llwyddwyd i gyrraedd 'obo' yn ystod cyfnod John), ac wedi ymddeol aeth i Aberystwyth i helpu gydag ysgrifennu a didoli'r slipiau papur a oedd yn sail i'r cyfan. Bellach, wrth gwrs, mae'r we wedi trawsnewid y Geiriadur. Bu hefyd yn aelod gweithgar o Gyngor Llyfrau Cymru a'i banel grantiau, gan felly ddatblygu'r gwaith a argymhellwyd gan Gyngor yr Iaith Gymraeg.

Yn y 1990au fe'i gwahoddwyd i gadeirio'r trafodaethau aflwyddiannus am ffurfio eglwys rydd, unedig i Gymru. Fe ymddiswyddodd pan dynnodd yr Eglwys Ddiwygiedig Unedig – er mawr siom iddo – allan o'r trafodaethau, ond ni phallodd erioed ei awydd i weld undod rhwng yr eglwysi. Bu farw yn dawel gartref yng nghwmni ei deulu, sydd yn mawrygu ei gyfraniad diymhongar mewn cymaint o feysydd.

Gethin Rhys

Trafferthion y byd a Christ y concwerwr

Fel y gwelsom yn rhifyn Chwefror 14 o Cenn@d, mae mudiad Open Doors wedi cyhoeddi ei restr blynyddol o wledydd sydd yn gweld fwyaf o erledigaeth i Gristnogion. Gwelodd 2023 gynnydd yn rhif y Cristnogion sydd yn cael eu herlid i lefel sylweddol, a'r rhif ar hyn o bryd yw 365 miliwn. Mae hynny'n cynrychioli un o bob saith Cristion ledled y byd.

Y pum gwlad sydd ar ben y rhestr yw:

Gogledd Korea, ble mae bod yn berchen ar Feibl yn drosedd ddifrifol all gostio bywyd; yn ail mae ***Somalia***, ble mae amheuaeth o fod yn Gristion yn hynod beryglus, ac mae rhai sy'n troi at Grist yn talu gyda'u bywyd os cânt eu darganfod; yna daw ***Lybia***, gwlad gwbl Islamaidd ble mae tystio i Iesu Grist yn golygu eich restio a gwrthwynebiad treisgar; yn bedwerydd mae ***Eritrea***, sydd yn cyfyngu'n llym ar weithgaredd Cristnogol a ble mae rhai fel Abdullah, a ddwedodd am Iesu, yn wynebu carchar na ddaeth ohono yn fyw; yna daw ***Yemen*** gyda nifer fach iawn o Gristnogion cyfrinachol a phobl fel Salah, sy'n arwain eglwys mewn cartref, yn gweinidogaethu yn wyneb bygythiadau parhaus ar ei fywyd.

Yn 2023 cafodd 4,998 o Gristnogion eu lladd am y Ffydd. Roedd dros 4,000 o'r rhain yn Nigeria ble mae cymunedau Cristnogol yn dal i wynebu ymosodiadau creulon di-gosb gan ysbeilwyr neu ymgyrchwyr arfog Islamaidd. Bu farw 261 o gredinwyr yng Ngweriniaeth Ddemocrataidd y Congo.

Mae nifer o lywodraethau awtocrataidd yn cynyddu eu rheolaeth o'u pobl. Caiff Cristnogion eu 'nabod fwyfwy fel gelynion y stâd. Mae hyn yn digwydd nid yn unig mewn mannau fel China ac Iran, ond hefyd mewn gwledydd megis Nicaragua, Algeria, Morocco a Thiwnisia.

Ymateb?

Sut ddylen ni ymateb i'r wybodaeth yma? Dylem gefnogi mudiadau fel Open Doors sydd yn cydlynu cefnogaeth ysbrydol a materol i frodyr a chwïorydd sy'n dioddef oherwydd erledigaeth. Dylem hefyd weddïo dros y rhai sydd yn y sefyllfaoedd brawychus hyn. Sut ddylen ni weddïo?

Y canllaw gorau i'n gweddïau ym mhob sefyllfa yw Gair Duw.

Diolch bod yr Arglwydd Iesu wedi ein rhybuddio y byddai erledigaeth yn dod, ond na fyddai yn rhwystro gwaith a llwyddiant ei deyrnas. (Ioan 16.33) Gweddïwn y bydd y rhai sy'n cael eu herlid yn gwybod ac yn cofio hyn ac yn profi tangnefedd Crist. Darllenais yn ddiweddar am fenyw yn y Philipinau o'r enw Benita a drodd at y Cristnogion roedd hi wedi bod yn eu herlid pan aeth yn ddifrifol wael. Cafodd iachâd, a daeth hi a'i theulu yn Gristnogion!

Dywedodd Iesu hefyd na ddylai'r sawl sy'n cael ei erlid ofni ond llawenhau oherwydd bod gwobr fawr iddo yn y nef, a'i fod yn brawf o'i berthynas agos â'r proffwydi a'r saint ffyddlon, a'r Arglwydd a brofodd erlid hyd angau ei hunan. (Mathew 5.10-12 a Ioan 15.20,21) Gweddïwn y caiff y rhai dan erledigaeth brofi'r llawenydd dwfn yma, a chael eu rhyddhau o'u hofnau.

Dywedodd y byddai pob cenedl yn erlid yn eu tro, ond y byddai'r Efengyl yn cael ei chyhoeddi trwy'r byd a byddai'r sawl sy'n dal ati hyd y diwedd yn cael ei achub. (Mathew 24.9-13) Gweddïwn y caiff ein brodyr a'n chwïorydd nerth arbennig Duw i ddal ati mewn amgylchiadau sydd mor aml yn erchyll.

Yn olaf, mae'r Beibl yn cyhoeddi gwae ar y rhai esmwyth yn Seion (Amos 6.1). Mae clywed am sefyllfa'r saint o dan wasgfa yn ein herio ni sydd mewn gwlad rydd.

Oni ddylem ni fod yn fwy brwd ein gwasanaeth a'n cenhadaeth i'r Arglwydd tra'i bod yn ddydd gras?

Oni ddylem ddangos ein diolch i'r Arglwydd a'n ffydd yn ei fuddugoliaeth derfynol trwy ddyfalbarhau yng ngwaith ei deyrnas tra gallwn wneud hynny?

A ninnau'n nesáu at ddydd Gŵyl Dewi, mae'n werth cofio'i anogaeth i fod yn llawen ac i gadw ein ffydd a'n cred.

Diolch am esiampl ac anogaeth ein Harglwydd i gario'r groes a marw i'r hunan.

Diolch bod Cristnogion sy'n ildio popeth yn rhoi esiamplau ymarferol pellach i'n helpu ac i'n hannog. Darllenais yn ddiweddar am genhadon y bedwaredd ganrif ar bymtheg fyddai'n pacio'u heiddo cyn ymadael â'u cartre mewn arch yn hytrach na chist teithio arferol, gan nad oedden nhw'n disgwyl para mwy na blwyddyn neu ddwy cyn y byddai rhyw haint neu'i gilydd yn eu lladd.

Diolch ein bod yn perthyn i deyrnas fuddugol y Brenin buddugol a bendigedig!

John Treharne

Paratoi ar gyfer y Pasg – chwilio am gymorth

A ninnau bellach yn nhymor y Grawys, rydym wedi dechrau ar y gwaith blynyddol o gasglu a gosod adnoddau ar y we i helpu ysgolion Sul ac eglwysi i ddathlu'r Pasg. Dros yr wythnosau nesaf byddwn yn cywain gan wahanol enwadau a mudiadau eu hadnoddau diweddaraf, boed yn wersi neu'n astudiaethau Beiblaidd, myfyrdodau, ffilmiau neu luniau, gweddïau ayyb. Bydd adran bwrpasol ar ein gwefan i rannu'r adnoddau hynny gydag eraill.

Tybed a fedrwch chi ein helpu ni? Oes 'na ddeunydd yng nghombil y cyfrifiadur, efallai? Rhywbeth a baratowyd ar gyfer cynulleidfa leol a allai fod o fudd a gwerth i eraill? Beth am yrru unrhyw ddeunydd atom i'w ystyried? Byddai'n dda cael deunydd sydd eisoes wedi ei dreialu ac wedi ei baratoi ar gyfer cynulleidfa o blant neu oedolion yn lleol. Efallai fod 'na oedfa neu wasanaeth plant, emyn neu weddi y byddai modd i chi eu rhannu â ni? Gallwn wedyn rannu'r rhain gydag eraill ar hyd a lled Cymru. Cysylltwch ag Aled Davies ar aled@ysgolsul.com am sgwrs neu i anfon deunyddiau.

Aled Davies
Cyngor yr Ysgolion Sul / Cyhoeddiadau'r Gair

Cymorth Cristnogol – Taclo Tlodi – Grawys 3 Hael (Detholiad)

Gofyn Ymlaen Llaw: cwestiwn i'w ystyried cyn y sesiwn hon

A fedrwch chi feddwl am adeg pan ddangosodd rhywun haelioni i chi a aeth y tu hwnt i'ch disgwyliadau? Pa wahaniaeth wnaeth hynny i'ch bywyd?

Darlleniad o'r Ysgrythur: Marc 12:41–4 – 'Offrwm y Weddw'

Myfyrdod: Sut ydyn ni'n byw'n hael yng nghanol argyfwng costau byw?

Yn 2024, mae llawer o bobl yn y Deyrnas Unedig ac mewn gwledyddd eraill ledled y byd yn ceisio ymgodymu ag argyfwng costau byw. Mae'n ddigon posib bod y rhain yn cynnwys aelodau o'ch eglwys chi sy'n ei chael hi'n anodd cael dau ben llinyn ynghyd. Efallai yr hoffai pobl rannu hyn gydag aelodau eraill y grŵp (ond efallai ddim). Byddwch yn ofalgar o hyn yn ystod eich trafodaethau.

Sut mae modd inni fod yn 'bobl sydd wrth eu boddau yn rhoi' (2 Corinthiaid 9:6) pan ydyn ni eisoes yn teimlo'r wasgfa neu'n waeth na hynny?

Pan fydd pawb yn ceisio cadw golwg ar eu gwariant, gall y dasg o daclo tlodi ymddangos yn llethol.

Fe wyddon ni fod sawl eglwys yn dal i fynd i'r afael ag effeithiau'r pandemig. Efallai fod llai o bobl yn ymwneud â'ch eglwys ar hyn o bryd, neu fod cyllid yr eglwys yn bryder, o bosib?

Sut allwn ni fod yn hael gyda'n hamser, ein hegni a'n hadnoddau pan ydyn ni eisoes yn teimlo'u bod nhw'n brin?

YSTADEGAU

Mae'r 10% cyfoethocaf o bobl y byd ar hyn o bryd yn cymryd 52% o'r incwm byd-eang, tra mae hanner tlotaf y boblogaeth yn ennill 8.5% yn unig ohono.
(Ffynhonnell: Adroddiad ar Anghydraddoldeb y Byd 2022).
'Mae corff sylweddol a chadarn o ymchwil sy'n awgrymu bod gwledydd sydd â lefelau uwch o anghydraddoldeb yn meddu ar lefelau is o ymddiriedaeth.'
(Ffynhonnell: Yr Ymddiriedolaeth Cydraddoldeb)

Fe all yr hanesyn uchod yn Efengyl Marc gynnig rhywfaint o anogaeth inni. Cyfeirir yn aml ato fel stori 'hatling y wraig weddw'. Yr 'hatling' oedd y darn arian lleiaf o arian oedd mewn defnydd yng nghyfnod Iesu, tebyg i geiniog ein dyddiau ni. Fe all mai'r stori hon oedd yr ysbrydoliaeth ar gyfer yr ymadroddion fel 'dweud fy nghnegwarth' neu 'rhyw ateb ceiniog a dime' – sy'n cyfeirio at farn nad ydyn ni'n meddwl sy'n cyfrif fawr ddim.

Mae rhodd y weddw yn bitw bach, cyn lleied ei gwerth fel ei bod yn ymddangos bron yn ddiwerth. Faint o wahaniaeth mewn gwirionedd y gall ceiniog neu ddwy ei wneud? Er hynny, mae Iesu'n gweld y rhodd ac yn gwneud sylw amdani. Mae fel petai'n canmol haelioni eithriadol y weddw. Efallai mai diben y stori hon ydy dangos inni fod i weithredoedd bach o haelioni werth mawr a bod Duw yn cydnabod hyn.

O feddwl am hyn ychydig pellach, fe welwn fod yma her yn ogystal ag anogaeth. Mae rhodd y weddw (er yn bitw bach mewn termau ariannol) wedi golygu trosglwyddo'r cyfan sydd ganddi. Efallai y bydd y 'bobl gyfoethog' yn cynnig 'symiau mawr' ond oherwydd eu cyfoeth, cymharol fach ydi'r gost bersonol iddyn nhw, mewn gwirionedd. Prin y bydden nhw'n sylwi'r gwahaniaeth o ddydd i ddydd. Felly, mewn termau go iawn, gyda'i cheiniog neu ddwy, fe roddodd y weddw fwy na nhw i gyd. Os ydy Iesu'n cyflwyno'r weddw fel esiampl inni, yna y disgwyliad ydy y byddwn ninnau yr un mor eithriadol yn ein rhoi. Mae'n ymddangos ein bod yn cael ein galw i fod yn hael, hyd yn oed pan nad oes fawr ganddon ni yn weddill. Mae hyn yn beth anodd i'w lyncu!

Ond nid dyma'r stori i gyd, fodd bynnag. Mae rhai esbonwyr ar y darn hwn wedi tynnu sylw at gyd-destun y sylw mae Iesu'n ei wneud. Yn union cyn yr adnodau hyn, mae Iesu'n codi ei lais yn erbyn y rhai hynny mewn grym sy'n 'dwyn popeth oddi ar wragedd gweddwon', ac eto'n hawlio parch ac anrhydedd. Mae'n ddig tuag at system sy'n amddifadu pobl, sydd eisoes yn fregus, o'u tai a'u bywoliaethau.

Pan mae Iesu'n gwneud sylw am haelioni'r weddw, tybed ai ei brif ddiben ydy cwestiynu sut y bu iddi ei chael ei hun mewn tlodi eithafol? Pam y dylai ei rhodd hithau olygu gorfod ildio 'y cwbl oedd ganddi i fyw arno', tra bo eraill yn parhau yn ddedwydd eu byd? A ydy pwyslais y stori'n llai ar roi o'n ceiniogau prin a mwy ynglŷn â herio system sy'n creu tlodi'r weddw yn y lle cyntaf?

Fel yn aml yn Efengyl Marc, does yna ddim ateb syml. Wyddon ni ddim beth ddigwyddodd i'r weddw wedi iddi wneud ei chyfraniad. A dydyn ni ddim yn cael clywed ganddi hi'n uniongyrchol am ei phrofiad a beth ddaeth â hi i'r fan yma.

Mae Duw'n addo 'bywyd ar ei orau' i ni – gras, tangnefedd, cyfiawnder a gorfoledd diddiwedd, di-ffael. Dyna'r hyn mae Duw'n ei ddymuno i ni a'r hyn y mae Duw'n ei ddymuno inni ei estyn i eraill, drwy weithredoedd o haelioni a chariad.

Ond neges wahanol a glywn gan y byd o'n cwmpas ac yn aml o'r tu mewn i ni'n hunain. Y neges hon ydy ein bod wastad yn brin, bod beth bynnag sydd ganddon ni ddim yn ddigon. Does yna ddim digon i'w rannu, medden nhw; rhaid inni neilltuo'r hyn a allwn i ni'n hunain, jest rhag ofn. Ymwrthod â'r neges hon y mae'r wraig weddw. Mae hi'n rhoi fel tasai dim angen unrhyw beth arni. Mae'r cyfranwyr cyfoethog yn meddu ar bopeth sydd ei angen arnyn nhw ond yn cadw rhywbeth yn ôl. Mae'r weddw, yn ôl safonau cyfnod Iesu a'n cyfnod ninnau, yn 'annoeth' yn nhermau'r byd. Mae'r cyfoethog yn fwy rhesymol, gan eu bod nhw'n pwyso a mesur ac yn dal yn ôl rhag bod yn rhy hael. Dydy hyn ddim i fod i wneud yn fawr nac yn fach o wir effaith tlodi affwysol y weddw. Ond mae'n awgrymu y gall haelioni fod yn weithred herfeiddiol. Pan glywn ein bod yn brin neu'n ddiffygiol; **pan fo'r byd yn dweud wrthon ni y dylen ni ddal yn ôl, gall ein haelioni ddatgelu gweledigaeth wahanol. Efallai bod ein dwy geiniog ninnnau'n cyfrif mwy nag a feddyliwn.**

Gwrandewch: Stephen Amusala, Gwasanaeth Datblygu Anglicanaidd Gorllewin Kenya

https://soundcloud.com/actonpoverty (7 munud)
Mae Stephen yn disgrifio sut y gall anobaith fagu lle bo tlodi. Mae hefyd yn sôn am yr hyn y gellir ei wneud mewn ymateb. "A ydy Duw'n fy ngharu?" – ydy hwn yn gwestiwn rydych chi wedi gofyn yn ystod eich bywyd? Beth ysgogodd y cwestiwn? A wnaeth pobl o'ch cwmpas ddangos cariad Duw tuag atoch? Sut wnaeth hyn amlygu ei hun?

Gwrandewch: Y Ddiacones Kerry Scarlett, Is-lywydd y Gynhadledd Fethodistaidd

https://soundcloud.com/actonpoverty (8 munud)
Cewch ei chlywed yn siarad am ei phrofiad o gael ei magu yng nghanol y gwrthdaro yng Ngogledd Iwerddon, ei phrofiad gweinidogaethol gyda chymunedau sy'n profi amddifadedd economaidd, a'r mannau lle y profodd haelioni yn ei bywyd.

(parhad ar y dudalen nesaf)

Cymorth Cristnogol – Taclo Tlodi – Grawys 2 Hael (Detholiad)
(parhad o dudalen 5)

Ysbrydoliaeth: Street Banquet, Birmingham

Gwyliwch ein ffilm fer yma: https://ifs.org.uk/tools_and_resources/where_do_you_fit_in

Mae *Street Banquet*, menter gan yr Eglwys Fethodistaidd, yn cynnig prydau parod a chymdeithas i'r rhai digartref a'r bregus ac yn eu gwahodd i ymuno mewn cynnig prydau i eraill. Yn y fideo hon, fe gewch fwy o wybodaeth am *Street Banquet* fel man lle rhennir haelioni, lle mae'r gwahoddedigion eu hunain yn cael cynnig y cyfle i weini.

Taclo Tlodi – Beth allech chi a'ch eglwys ei wneud?

Cam 1: Gwrandewch ar ein darn sain ychwanegol ar gyfer y sesiwn hon (https://soundcloud.com/actonpoverty), lle clywir Stef Benstead yn amlinellu ei hymwneud â'r Comisiwn Gwirionedd ar Dlodi ym Manceinion. Ystyriwch ble yn eich eglwys a'ch cymuned y mae lleisiau'r rhai hynny sydd â phofiad byw o dlodi yn cael eu clywed a chamau'n cael eu gweithredu.

Cam 2: Cadwch lygad ar y newyddion yr wythnos hon a chwilio am enghraifft o haelioni, neu sefyllfa lle mae cam bach yn y cyfeiriad iawn wedi arwain at newidiadau mawr. Nodwch beth ynghylch yr enghraifft hon sydd wedi eich ysbrydoli. Efallai yr hoffech rannu'r hyn welsoch chi gydag eraill yn eich eglwys.

Gweddi i Gloi – amrywiadau ar 'Y Gwynfydau'

Mae'r rhai sy'n herio strwythurau economaidd anghyfiawn wedi'u bendithio'n fawr, oherwydd nhw fydd arwyddion gobaith.

Mae'r rhai sy'n chwyddo lleisiau ac yn adrodd hanesion pobl eraill wedi'u bendithio'n fawr, oherwydd byddant yn dysgu doethineb cyd-ddibyniaeth.

Mae'r rhai sy'n cydnabod eu breuder a'u bywydau toredig wedi'u bendithio'n fawr, oherwydd byddant yn ymwrthod â bod yn waredwyr ac yn arwyr yn hanesion pobl eraill.

Mae'r rhai sy'n ymateb i anghenion pobl eraill, heb yr angen am gydnabyddiaeth na gwobr, wedi'u bendithio'n fawr, oherwydd eu bod yn gwasanaethu Crist ei hun.

Mae'r rhai sy'n protestio ac yn ymgyrchu wedi'u bendithio'n fawr, oherwydd maen nhw'n tynnu sylw at anghyfiawnder.

Mae'r rhai sy'n meithrin cyfeillgarwch ymysg pobl amrywiol wedi'u bendithio'n fawr, oherwydd fe fyddan nhw'n tyfu'n gymuned gynhwysol.

Mae'r rhai sy'n gynddeiriog â dicter wedi'u bendithio'n fawr, oherwydd maen nhw'n ein herio i wynebu gwirioneddau anghysurus.

Mae'r rhai chwilfrydig wedi'u bendithio'n fawr, oherwydd fe gânt weld y tu hwnt i atebion y rhai grymus.

Mae'r rhai sy'n dathlu gwerth ac urddas pob person byw wedi'u bendithio'n fawr, oherwydd fe fyddan nhw'n adnabod wyneb Duw.

Mae'r rhai sy'n gweithio dros gyfiawnder hiliol wedi'u bendithio'n fawr, oherwydd maen nhw'n herio pechod hiliaeth ac yn adnabod gwir gyfoeth ac amrywiaeth delwedd Duw.

Mae'r rhai sy'n hwyluso arweinyddiaeth pobl eraill wedi'u bendithio'n fawr, oherwydd nhw sy'n cynnal y presennol a'r dyfodol.

Byddwch lawen, oherwydd bydd y rhai sy'n gwrando ac yn dysgu o ddifrif gan bobl sy'n profi tlodi yn rhannu neges fywiol Efengyl Crist o ryddhad.

Y Ddiacones Eunice Attwood

Paned a Phancos yng Ngofalaeth Caron

Nos Fawrth Ynyd, daeth aelodau Gofalaeth Caron ynghyd i gymdeithasu dan arweiniad y Gweinidog, y Parch. Carwyn Arthur. Hyfryd oedd gweld pawb yn cydweithio er mwyn codi arian i'n helusennau eleni, sef Uned Strôc Bronglais a'r Banc Bwyd lleol.

John Meredith o gapel Penial, Blaenpennal, oedd arweinydd y noson. Cafwyd eitemau gan Ysgol Sul Bwlchgwynt a Chapel Bwlchllan cyn ffest o boncage blasus wedi eu paratoi'n ffres gan yr aelodau. I ddilyn, cafwyd cyfle i wylio ffilm fer o'r awyren Concorde yn hedfan, cyn olrhain taith y trên o Stesion Strata i Aberystwyth gyda throsleisio gan Brian Hopton.

Cyn cloi cafwyd cyfle i rannu ambell atgof a gwrando ar gân Tecwyn Ifan, 'Ffarwél i Stesion Strata, ffarwél i Ystrad-fflur'.

Casglwyd £503 ar y noson tuag at elusennau'r flwyddyn. Diolch am bob haelioni ac i Ymddiriedolaeth Blakemore, Siop SPAR, Tregaron, am noddi drwy gyfrannu'r holl gynhwysion.

Eirwen James
Gofalaeth Caron

S4C

Dechrau Canu, Dechrau Canmol
Sul, 3 Mawrth am 7.30yh
Lisa Gwilym fydd yn cwrdd â rhai o bobl ysbrydoledig Wrecsam wrth i ni ddathlu Gŵyl Nawddsant Cymru. A chawn fwynhau detholiad arbennig o emynau gwladgarol o addoldy bendigedig, Eglwys San Silyn yn y ddinas.

BBC radio cymru

Caniadaeth y Cysegr
Sul, 3 Mawrth, am 7:30yb a 16:30yp
Amrywiaeth o emynau yng nghwmni'r Parch. Iwan Llewelyn Jones

Oedfa Radio Cymru
Sul, 3 Mawrth, am 12yp
Oedfa dan ofal Rachel Radbourne, Llangefni.

Un funud fach ...

Pawb yn dod i adnabod eu gilydd ar y noson cyntaf o amgylch y tân

Chris, un o arweinwyr y sesiynau yn siarad am ei ffydd personol

Cyfle i addoli dros y penwythnos

Pawb yn mwynhau'r gweithgareddau gwahanol

Esgyn

Mae yna bryder mawr yn ein heglwysi o bob enwad, yr ochr Gymraeg a'r ochr Saesneg, fod ein pobl ifanc, wrth gyrraedd eu harddegau, yn diflannu o'n hysgolion Sul – yn cefnu ar ein capeli ac yn bennaf ar eu ffydd.

Cafodd y Parchedig Tim Moody, Gweinidog Cynorthwyol yng Nghapel Moriah, Risca, a llywydd cyfredol adran Saesneg UBC, weledigaeth gwpwl o flynyddoedd yn ôl i geisio atal y llif hwn. Fe ddes i i glywed am y syniad ym maes awyr Schipol yn Amsterdam wrth i storom Poly roi saib 24 awr ar ein taith i Stavanger yn Norwy fis Gorffennaf diwethaf.

Y syniad oedd prosiect Esgyn, gan ddechrau â phenwythnos preswyl i Gristnogion ifanc ein heglwysi i gael hwyl a hefyd y cyfle i addoli gyda'i gilydd. A bod hyn wedyn yn mynd yn rhywbeth blynyddol a'r gobaith o greu arweinwyr ifanc yn ein heglwysi.

Un o'r pethau mwyaf pwysig i Tim oedd fod ochr Gymraeg ac ochr Saesneg Undeb Bedyddwyr Cymru yn cydweithio. A gyda hynny fe wnaeth e ofyn i fi i fod yn rhan o'r prosiect cyffrous newydd yma.

Y pryder, wrth gwrs, gydag unrhyw beth newydd yw: a fyddai yna ddiddordeb yn ein heglwysi a gan ein pobl ifanc mewn digwyddiad o'r fath. Ddechrau mis Ionawr, doedd dim un person ifanc wedi cofrestru. Ond, drwy ras Duw, erbyn y penwythnos yn nechrau mis Chwefror roedd yna 33 o enwau, gyda 10 yn dod o Gymanfa Sir Benfro.

Dw i mor falch o adrodd ei fod wedi bod wir yn benwythnos llawn hwyl a bendith. Roedd yna weithgareddau amrywiol yng nghanolfan Rock UK, fel wal ddringo, saethyddiaeth a rhaffau uchel – ond gyda phwyslais ar ffydd a Christnogaeth. Mae'r staff sydd yn gweithio yn y Ganolfan yn Gristnogion ac yn siarad gyda'r bobl ifanc am eu ffydd bersonol wrth iddyn nhw wneud y gweithgareddau. Bob bore a nos hefyd roedd yna gyfle i ddod at ein gilydd i addoli a chwarae ambell i gêm cyn bwrw am y gwely.

Fe gafon ni adborth positif iawn, ac un cwestiwn mawr gan bawb … 'Pryd mae'r penwythnos nesaf?'

Hoffem gymryd y cyfle i ddiolch i Bwyllgor Langton am eu haelioni yn gwneud yn siŵr fod y bobl ifanc wedi medru mynychu'r penwythnos am ddim. Edrychwn ymlaen at y digwyddiad nesaf.

Sian Elin

Cytûn, Eglwysi Ynghyd yng Nghymru, yn gwahodd ceisiadau am swydd

Ysgrifennydd Cyffredinol

Mae Cytûn, Eglwysi Ynghyd yng Nghymru, yn gwahodd ceisiadau am swydd Ysgrifennydd Cyffredinol a ddaw'n wag toc oherwydd ymadawiad y Prif Weithredwr presennol, Siôn Brynach.

Bydd deiliad y swydd yn

- arwain gyda gweledigaeth ar eciwmeniaeth ac ymwneud â'r cyhoedd gan Eglwysi Cymru a bydd yn galluogi ac yn dwyn ymlaen y rhaglen waith a'r blaenoriaethau a osodir gan Fwrdd Ymddiriedolwyr Cytûn i wasanaethu'r Eglwysi;
- goruchwylio cefnogaeth i'r Cyfamod dros Undod yng Nghymru trwy Gomisiwn yr Eglwysi Cyfamodol;
- rheoli tîm sy'n cyflwyno'r rhaglen waith y cytunwyd arni gan y bwrdd a'r eglwysi sy'n aelodau;
- Gristion sy'n deall ac yn derbyn sylfaen drindodaidd Cytûn;
- gallu cyfathrebu'n rhugl yn Gymraeg a Saesneg.

Am fwy o wybodaeth am Cytûn, y rôl, a'r unigolyn yr ydym yn chwilio amdani/o, cysylltwch a cadeirydd@cytun.cymru

Gwnewch gais ar-lein at cadeirydd@cytun.cymru

A fyddwch cystal â chynnwys y canlynol:

- CV cynhwysfawr sydd yn cynnwys eich llwyddiannau diweddar a manylion dau ganolwr, gydag un ohonynt yn goruchwylio eich gwaith cyfredol.
- Llythyr cais o dim mwy na 1000 gair sydd yn cynnwys eich rheswm dros wneud cais a'r priodweddau y byddwch yn eu dwyn i'r rôl.
- **Rhaid derbyn ceisiadau erbyn 22 Mawrth 2024.**

Cynhelir cyfweliadau ar 19 Ebrill 2024

Cysylltwch â cadeirydd@cytun.cymru os oes gennych unrhyw ymholiadau

Mae gwybodaeth bellach i'w gael o ymweld â gwefan Cytûn: https://www.cytun.co.uk/cytun-eglwysi-ynghyd-yng-nghymru-yn-gwahodd-ceisiadau-am-swydd-ysgrifennydd-cyffredinol/

Oedfa Cenn@d – Dathlu Gŵyl Dewi

Hen arfer ymhlith capeli Cymraeg Croesoswallt fyddai galw enwau'r siroedd wrth iddynt ddathlu Gŵyl Dewi, a'r wefr bersonol yn 1993 o fod yr unig un gododd wrth glywed 'Sir Gaernarfon'. Byddai capeli Llanelli yn llawn cawl a 'phice bach' a chyngerddau, a bellach mae'r arfer o orymdeithio wedi dod yn boblogaidd ac yn adlewyrchu'r amrywiaeth yna rhan cenedl, wrth i ni ddod at ein gilydd i ddathlu a chyhoeddi'r gwead rhyfedd hwnnw sy'n ein creu yn Gymry ac yn Gymru.

Ac fe fydd yna oedfaon, yn llawn plant a phobl, yn grysau rygbi a gwisgoedd traddodiadaol, yn arwydd bod yr Eglwys yn dal yn fyw yn ein gwlad a'r dyhead i gydnabod a deall ein hetifeddiaeth Gristnogol.

GWEDDIWN

Duw creadigaeth ac Arglwydd bywyd, diolchwn i ti am y darn bychan yma o dir y gallwn ei alw'n gartref. Am dirwedd a chymunedau, hanes a thraddodiad, iaith a diwylliant, y cyfan yn destun balchder a dathliad. Derbyn ein moliant. Amen.

EMYN 822 (Caneuon Ffydd)

Mawrygwn di, O Dduw,
am bob celfyddyd gain,
am harddwch ffurf a llun,
am bob melyster sain:
ti'r hwn sy'n puro ein dyheu,
bendithia gamp y rhai sy'n creu.

DARLLENIAD 1 – Ecclesiasticus (Yr Apocryffa) Pen 44 ad 1 – 15

'Yr oedd rhain yn wŷr cyfoethog
a chryf eu hadnoddau.' (ad 6a)

Dwi wrth fy modd yn gweld crefftwr wrth ei waith, boed yn saer neu adeiladwr, trydanwr neu blymwr, pobl wedi dysgu crefft, ac yn ymarfer y grefft honno er mwyn caniatau i fywyd fynd yn ei flaen yn rhwydd, o'r cyffredin i'r anghyffredin. Y saer sy'n creu ffenestr neu ddrws, gweithred hynod o ymarferol ond ar yr un pryd yn gwarchod cartref rhag oerni'r gaeaf, a'r adeiladwr sy'n creu pont er mwyn cysylltu dwy gymuned â'i gilydd. Y pensaer a'r periannydd ond hefyd y llenor a'r bardd, y cerddor a'r perfformiwr, crefftwyr o natur wahanol yn ceisio creu cymuned a byd gwâr, gyda'r ddealltwriaeth o werth ac arbenigrwydd bywyd. Mae mis Mawrth yn gyfle i chi a fi feddwl am gyfoeth ein hetifeddiaeth fel cenedl, etifeddiaeth ddoe ond hefyd yr hyn sy'n taflyd ei oleuni ar fywyd heddiw, **A DATHLU.**

DARLLENIAD 2 – Mathew Pen 3 ad 7 – 12 –

'A pheidiwch â meddwl dweud
wrthych eich hunain, 'Y mae gennym
Abraham yn dad'.' (ad 9a)

Geiriau caled oedd geiriau Ioan i'w wrandwyr yn anialwch Jwdea, geiriau oedd yn treiddio i feddwl a chalon, geiriau mewn cyd-destun, yn grefyddol, hanesyddol a diwylliannol, a geiriau i unigolion oedd yn ymhyfrydu yn eu tras. Roedd yna pwyslais mawr yn cael ei roi ar y ffaith eu bod yn rhai o ddisgynyddion Abraham a'r synnwyr o fod yn rhan o genedl ddoe a heddiw, cenedl etholedig, breintiedig dan ffafr Duw, a hyn yn gweithredu fel cyfiawnder yn eu presennol. Nid yw Ioan yn dibrisio hynny, mwy nag yr oedd yr Iesu'n dibrisio'r Gyfraith, ond yn hytrach yn cyflwyno gwironedd arall, newydd, sef y ddealltwraieth o berthynas atebol bersonol gyda Duw. Roedd eu bywydau'n gyfoethog o fod yn rhan o genedl a'r ddealltwriaeth o etholedigrwydd wedi siapio eu bywydau mewnol a chyhoeddus ers cenedlaethau, ond bellach 'roedd yna alwad i edifeirwch. Mae mis Mawrth yn gyfle i chi a fi gael ein hatgoffa o gyfoeth ein hetifeddiaeth Gristnogol, a dylwanwad y ffydd ar iaith a diwylliant a chymuned, mor dlawd fyddai ein heddiw heb yr hyn ddigwyddodd ddoe, ond ar yr un pryd, mewn cymdeithas ôl grefyddol, i weld bywyd yn nhermau'r metaffisegol o'r newydd.

DATHLWN FENDITHION YSBRYDOL Y GORFFENNOL

EMYN 852 (Caneuon Ffydd)'

Dros Gymru'n gwlad, O Dad, dyrchafwn gri,
y winllan wen a roed i'n gofal ni;
d'amddiffyn cryf a'i cadwo'n ffyddlon byth,
a boed i'r gwir a'r glân gael ynddi nyth;
er mwyn dy Fab a'i prynodd iddo'i hun,
O crea hi yn Gymru ar dy lun.

DARLLENIAD 3 – 1 Ioan Pen 5 ad 6 – 13

'A hon yw'r dystiolaeth: bod Duw wedi rhoi inni fywyd tragwyddol. Ac y mae'r bywyd hwn yn ei Fab.' (ad 11)

Fe fyddai'n wir dweud bod dirywiad yn rhan o'n hanadliad, ond ar yr un pryd, adferiad a bywyd newydd yn ei amrywiol ffyrdd. Yr alwad i addasu a hynny heb droi cefn ar hyn sydd wedi aros tros y canrifoedd. Fe fyddai'n wir dweud bod bywyd yn rhywbeth sy'n esblygu a phatrymau amrywiol bywyd, yn wleidyddol, gymunedol, ddiwylliannol, yn dod i fod dan amgylchiadau penodol, ond y perygl wastad o anwybyddu rhai agweddau. O wneud hynny, fe fyddai'n wir dweud y gallwn rhoi bod i fywyd anghyflawn a ninnau'n dioddef o ganlyniad. Er pa mor anghyffyrddus bynnag mae'n swnio, cenedl anghyflawn yw unrhyw genedl heb gydnabyddiaeth o'r ysbrydol yn ei bywyd ac felly'r alwad ddeublyg –

i) I'r Eglwys yn ein gwlad, i fod yn hyderus yn ei chrêd, i ddeall ystyr perthynas Gristnogol, ac i fod yn gymuned sy'n gwasanaethu.

ii) Ac i gymdeithas sy'n prysur fynd yn ddieithr i sylfeini'r ffydd, yn athrawiaeth a chredo a ffordd o fyw, yr alwad i edrych ar Iesu, i glywed ei lais, a'i ddilyn.

Boed i ni'r gwyleidddra a'r gostyngeiddrwydd i ymateb.

GEIRIAU OLAF TYBIEDIG DEWI SANT

"Byddwch lawen, cadwch y ffydd a gwnewch y pethau bychain a welsoch ac a glywsoch gennyf i."

GWEDDIWN

Duw ddoe a heddiw ac yfory, Duw ein cyndadau, Duw yr hyn sydd wedi bod a Duw yr hyn sydd i ddod, derbyn ein moliant. Am gyfoeth traddodiad a iaith a diwylliant, campweithiau pensaernïol, a'r hyn oll y mae'r Cymry wedi ei gyfrannu i'n gwlad a thrwy'r byd, derbyn ein moliant. Diolchwn am bob ymdrech i greu bywyd a chymuned oedd a sydd yn dyrchafu'r hyn sy'n gywir ac yn bur, gyda'r ddealltwriaeth o gyfleon, o berthynas ac o frawdgarwch. Cofiwn am ein nawddsant Dewi, ei fywyd a'i neges ond yn fwy na dim, calon ei anadliad sef yr Efengyl. Gweddiwn dros Gymru heddiw a gwawl yr etifeddiaeth Gristnogol yn pylu, am dy fendith gyfoethog ar fywyd yr Eglwys yn ein gwlad, am weld egin gwyrdd dy deyrnas yn blaguro ac am ddealltwriaeth newydd o'th gariad a'th faddeuant a'r bywyd newydd yng Nghrist. Yn enw Iesu. Amen

Emyn 871 (Caneuon Ffydd)

Dyro dy gariad i'n clymu,
Dy gariad fyddo'n ein plith,
Dyro dy gariad i Gymru,
Bendithion gwasgar fel gwlith:
Dysg inni ddeall o'r newydd
Holl ystyr cariad at frawd;
Dyro dy gariad i'n clymu,
Dy gariad di.

Cyhoeddir *Cenn@d* ar y cyd gan Eglwys Bresbyteraidd Cymru ac Undeb Bedyddwyr Cymru.
Oni nodir yn wahanol, nid yw barn cyfranwyr *Cenn@d* yn cynrychioli barn swyddogol Eglwys Bresbyteraidd Cymru nac Undeb Bedyddwyr Cymru. Gallwch anfon eich cyfraniadau / gohebiaethau / ymholiadau at:
huw@cennad.cymru | aled@ysgolsul.com
www.cennad.cymru CennadCymru @CennadCymru